WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyngor Dinas a Sir Abertawe

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2019


Cyhoeddwyd: Mawrth 2020 | Cyfeirnod y ddogfen: 1808A2020-21


Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018. Mae ein crynodeb archwilio'n rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn** ar ein **gwefan**.

### Ynglŷn â'r Cyngor

**Rhai o'r Gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor:**



### Ein dyletswyddau

Rydym yn cwblhau gwaith bob blwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- **Archwilio'r Cyfrifon**
  Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor i wneud yn siŵr y rhoddir cyfrif am arian cyhoeddus mewn modd priodol.
- **Gwerth am arian**
  Rhaid i'r Cyngor sefydlu trefniadau i gael gwerth am arian ar gyfer yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, a rhaid i ni fod wedi ein hargyhoeddi ei fod wedi gwneud hyn.
- **Gwella'n barhaus**
  Rhaid i'r Cyngor hefyd sefydlu trefniadau i wneud gwelliannau parhaus ac rydym hefyd yn gwirio a yw wedi gwneud hyn.
- **Yr egwyddor datblygu cynaliadwy**
  Mae angen i gyrff cyhoeddus wneud yn siŵr, wrth wneud penderfyniadau, eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol. Rhaid i ni asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

**I gyflawni ein dyletswyddau rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith cyrff rheoleiddio eraill megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg). Caiff canfyddiadau ein gwaith archwilio eu crynhoi isod.**

## Archwiliad o Gyfrifon Cyngor Dinas a Sir Abertawe 2018-19

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol y Cyngor.

**Ar gyfer 2018-19:**

- Darparodd y Cyngor ddatganiadau ariannol drafft 2018-19 i'w harchwilio ar 20 Mai 2019, a oedd ymhell cyn y terfyn amser statudol, sef 15 Mehefin 2019. Cyflwynwyd y datganiadau ariannol yn gynharach heb i hynny gael unrhyw effaith ar ansawdd y datganiadau drafft na'r ddogfennaeth ategol a ddarparwyd ar ein cyfer. Gan hynny, dylid canmol swyddogion y Cyngor am y gamp ragorol hon.
- Cafodd y materion allweddol sy'n deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon eu cyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 13 Awst 2019 ac wedi hynny i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 29 Awst 2019. Fe wnaethom roi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 30 Awst 2019, 16 diwrnod cyn y terfyn amser statudol.
- Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Cyngor ac â'n gwybodaeth ni am y Cyngor.
- Yn ychwanegol at ein cyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol y Cyngor, mae gennym hefyd gyfrifoldeb am ardystio nifer o hawliadau am grantiau a ffurflenni grantiau. Nid yw ein gwaith wedi canfod unrhyw faterion arwyddocaol.

## Gwerth am Arian

Rydym wedi'n hargyhoeddi bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o'r adnoddau y mae'n eu defnyddio. Mae heriau arwyddocaol yn dal i fodoli yn enwedig o ran cyflawni trawsnewid amserol yn erbyn cefnlen sefyllfa ariannol sy'n gryn her.

Nod ein hadolygiad o gynaliadwyedd ariannol pob un o'r 22 o Gynghorau yng Nghymru yn 2019-20 oedd asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol tymor byr a chanolig cynghorau. Fe gynhaliom ni'r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a'r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau. Yn Abertawe, daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn dal i wynebu her ariannol arwyddocaol a bod angen iddo gyflawni ei gynlluniau arbedion ar y cyflymder a'r raddfa sy'n ofynnol gan hefyd reoli gwariant gan wasanaethau o fewn cyllidebau a chan felly gael gwared ar y ddibyniaeth ar fesurau cyllido canolog unigol i fantoli'r gyllideb gyffredinol yn llwyddiannus fel arall.

Mae ein gwaith diweddar gyda'r Cyngor wedi rhoi mwy o sicrwydd i ni bod ei uwch reolwyr, trwy ei Fwrdd Ail-lunio, yn darparu mewnbwn strategol â ffocws pendant i gefnogi'r agenda drawsnewid a rhoi cymorth i gyflawni arbedion ariannol cysylltiedig. Hefyd, bydd y setliad ariannol gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru yn ysgafnhau'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor ym mlwyddyn ariannol 2020-21 ond ni fydd yn mynd i'r afael â'r pwysau hwn. Mae'r Cyngor yn cydnabod maint yr her ariannol barhaus a'r trawsnewid sy'n ofynnol o ran y modd y mae'n darparu gwasanaethau, a hynny ar unwaith a thros y tymor hwy. Yn unol â hynny, mae'n cynnal proses sylfaenol i adolygu a diweddaru ei raglen drawsnewid i sicrhau bod y camau arfaethedig yn rhai ar raddfa a chyflymder digonol. Byddwn yn adolygu'r trefniadau trawsnewid hyn ymhellach yn ystod ein Rhaglen Archwilio yn 2020.

Roedd ein gwaith archwilio yn 2018-19 yn cynnwys adolygiad dilynol o adroddiad cenedlaethol Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2015, Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Hamdden. Yn dilyn adolygiad comisiynu o Wasanaethau Diwylliannol y Cyngor, ar 1 Hydref 2018, trosglwyddodd saith o ganolfannau hamdden y Cyngor i Freedom Leisure, sefydliad dielw, i reoli a gweithredu'r cyfleusterau hyn am gyfnod o 19.5 mlynedd. Fe wnaeth ein hadolygiad fwrw golwg ar yr adolygiad comisiynu o Wasanaethau Diwylliannol y Cyngor a'r trefniadau penderfynu ar gyfer trosglwyddo'r canolfannau hamdden hyn i sefydliad dielw. Daeth ein harchwiliad i'r casgliad canlynol: mae'r Cyngor wedi rhoi'r cyfrifoldeb am reoli ei ganolfannau hamdden yn y dyfodol ar gontract allanol, ond nid oes ganddo gynllun strategol llawn i werthuso cyfraniad y gwasanaeth hamdden i gyflawni amcanion y Cyngor.

Roedd ein gwaith archwilio yn 2018-19 hefyd yn cynnwys adolygiad dilynol o'n hadroddiad yn 2014 ar drefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant. Fe wnaethom hefyd ystyried cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Adolygiad o Drefniadau Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' (Gorffennaf 2015). Ar y cyfan canfuom fel a ganlyn: Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion yn ein hadroddiadau diogelu cenedlaethol a lleol blaenorol ond dylai gryfhau rhai agweddau ar ei drefniadau diogelu corfforaethol. Rydym wedi cyflwyno cynigion pellach ar gyfer gwella i'r Cyngor yn hyn o beth.

## Gwella'n Barhaus

Rydym wedi'n hargyhoeddi bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol i gynllunio ar gyfer gwella ac adrodd ar wella, a'i fod yn debygol o ateb gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2019-20.

## Archwiliadau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Fe wnaeth yr archwiliad a gynhaliwyd gennym yn 2018-19 ystyried i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei ddull newydd mewn perthynas â chyflogadwyedd, sef 'Gweithio Abertawe'. Daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu a gweithredu'r 'cam' (mae 'Gweithio Abertawe' yn elfen benodol o strategaethau'r Cyngor i drechu tlodi a mynd ar drywydd atal), ond bod cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio yn fwy.

Fe wnaeth ein harchwiliad yn 2019-20 ystyried i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni trosglwyddiad llwyddiannus cyfleusterau hamdden i bartner darparu'r Cyngor. Daethom i'r casgliad bod y Cyngor wedi cymryd camau priodol i sicrhau bod y gwasanaeth cyfredol yn gynaliadwy ond nad yw eto wedi datblygu ei strategaeth a'i ddeilliannau bwriadedig ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden yn Abertawe yn y dyfodol.

## Arolygiaethau Eraill

Fe wnaethom hefyd ystyried adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Estyn yn ogystal ag unrhyw gamau gweithredu dilynol a gymerwyd gan y Cyngor mewn ymateb. Adroddodd AGC ar ei arolygiad o wasanaethau ar gyfer plant sy'n byw yn Abertawe ym mis Hydref 2018. Cyhoeddodd AGC Adolygiad o Berfformiad yr Awdurdod Lleol hefyd. Ni wnaeth Estyn arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn Abertawe yn ystod y cyfnod.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y Llywodraeth, ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cyflawni astudiaethau o werth am arian llywodraeth leol ac yn asesu i ba raddau y cydymffurfir â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn amcanu at ddarparu gwaith sy'n gymesur ac sydd â ffocws cyhoeddus i adrodd ar stiwardiaeth ar adnoddau cyhoeddus a thrwy hynny ddarparu mewnwelediad a hybu gwelliant.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.